

ROBERTS, JOHN (1823 - 1893), chwaraewr biliards

Enw: John Roberts
Dyddiad geni: 1823
Dyddiad marw: 1893
Plentyn: John Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: chwaraewr biliards
Maes gweithgaredd: Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
Awdur: Walter Thomas Morgan

Ganwyd 12 Mehefin 1823; brodor o Lerpwl. Hanoedd ei rieni o ardal Holywell, Sir y Fflint, a medrai ef ei hun Gymraeg. Dechreuodd ei yrfa fel saer, ond yn fuan ymroes i filiards am ei fywoliaeth. Bu'n farciwr biliards yn Oldham ac wedyn yn oruchwyliwr yr Union Club Billiards Room ym Manceinion, 1845-52. Wedi hynny cadwai dafarn y Griffin yno. Yn 1849 heriodd Edwin Kentfield am yr anrhydedd o fod yn bencampwr Prydain, a phan wrthododd hwnnw chwarae'r ornest, hawliodd Roberts y teitl. Cydnabyddid ef yn bencampwr y deyrnas tan 1870, pan orchfygwyd ef gan ei ddisgybl, W. Cook, a orchfygwyd yn ei dro, yn 1885, gan John Roberts yr ieuengaf, mab John Roberts. Yr oedd yn awdur llyfr, sef *Billiards* (gol. gan Henry Buck), 1869. Bu farw yn ei dŷ ger Romford Road, Stratford, 27 Mawrth 1893.

Awdur

Walter Thomas Morgan, (1912 - 1990)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Ionawryn Williams, *Geiriadur Bywgraffiadol, yn cynnwys Byr-hanes y Cymry mwyaf adnabyddus fuont yn preswyllo yn Manceinion* (1896)

F. Boase, *Modern English Biography containing many thousand concise memoirs of persons who have died since the year 1850, with an index of the most interesting matter*

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804729](https://www.wikidata.org/wiki/Q20804729)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

